

Dechrau wrth fy nhraed

Enw: Mari Evans
Rhif Myfyriwr: 2003971

Cyd-destun fy ysgol lleoliad

Ysgol wedi'i leoli yn ardal Llansamlet yw'r ysgol lleoliad, mae yna 560 o ddisgyblion yn yr ysgol rhwng 3 ac 11 mlwydd oed wedi eu rhannu mewn i 17 dosbarth. Mae'r dosbarthiadau yma yn cynnwys un dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth meithrin (Estyn, 2018). Mae 22% o'r disgyblion wedi'u hadnabod â anghenion dysgu sydd yn debyg i'r ganran genedlaethol sef 21%, er hyn nifer fach sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (Estyn, 2018).

Mae'r ardal mae fy ysgol lleoliad wedi leoli ddim yn ardal adnabyddus dlawd. Yn ôl 'Census 2011' roedd y canran o bobl ddi-waith yn ardal Llansamlet oedd yn economaidd weithgar ond yn 3.2% o gymharu efo 3.9% yn Abertawe (Cyngor Abertawe, 2020). I gydfynd â hwn dim ond 7% o'r disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sydd yn swm llawer yn is na'r ganran genedlaethol o 18% (Estyn 2018).


Er mai Cymraeg yw prif gwaith a bywyd yr ysgol dim ond 10% o'r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg adref a chanran bach iawn sydd yn dod o gefnder ethnig (Estyn 2018).

Cwricwlwm i Gymru 2020

Mae addysg yng Nghymru yn newid, mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru wedi ei gynllunio er mwyn gwella addysg i geisio sicrhau bod bob un plentyn yn cael y profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau sydd angen arnynt ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol (Llywodraeth Cymru, 2020).

Y Pedwar diben

Fe gynllunwyd pedwar diben a ddylai fod yn "nod terfynol ar gyfer y cwricwlwm a gynllunir gan ysgolion" (Llywodraeth Cymru, 2020). Nod y cwricwlwm yw i gefnogi pobl ifanc i fod yn:




(Gwegogledd, 2018)

Er nad yw y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n llawn tan Medi 2022 (Llywodraeth Cymru, 2020) gan bod fy ysgol lleoliad yn ysgol arloesi, golyga hyn ei bod yn gweithio gyda'r llywodraeth ac ysgolion eraill er mwyn datblygu â'r cwricwlwm (Estyn, 2018). Yn ystod fy mhrofiad yn yr ysgol lleoliad gwelais agweddau o'r 4 diben yn cael eu adlewyrchu trwy wahanol agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol.

Damcaniaeth Bronfenbrenner

Mae damcaniaeth Ecological Bronfenbrenner yn nodi bod datblygiad plentyn yn cael ei effeithio gan sawl agwedd gwahanol o'i amgylchedd ym amrywio o ei teulu agos ac ysgol i'r gymuned eang (Guy-Evans, 2020). Fe wnaeth Bronfenbrenner rhannu'r wahanol agweddau yma mewn i 5 system gwahanol, fel a welir yn y diagarm. Y system 'microsystem' sydd fwyaf dylynwadol o ystyried datblygiad plentyn mae'r system yma yn cynnwys y teulu â'r ysgol (Guy-Evans, 2020).



Amgylchedd Dysgu

Efallai nad ydych wedi ystyried effaith yr ystafell ddosbarth ar ddatblygiad academaidd plant ond mae amgylchedd dysgu wedi'i brofi i gael effaith ar sut mae plant yn dysgu (Edu-quip). Dangosir gwaith ymchwil gan brifysgol Salford pwysigrwydd agweddau megis lliw, sain ac ansawdd yr air mewn ystafell ddosbarth (Edu-quip).

Sut ddylai amgylchedd dysgu effeithiol edrych?

Pan yn dylunio ystafell ddosbarth dylai athrawon trefnu eu hardaloedd, celfi a deunyddiau wrth sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'u adnoddau er mwyn sicrhau y cyfleoedd dysgu gorau phosib i bob plentyn (IrisCenter). Mae'r ystafell ddosbarth derbyn yn fy ysgol lleoliad yn enghraifft o amgylchedd dysgu effeithiol.

Mae y dosbarth wedi ei rannu i fewn i ardaloedd gwahanol megis ardal darllen, ardal gwisgo i fyny ac ardal chwarae tywod. Roedd hyn wedi ei wneud yn effeithiol wrth ystyried bod ardaloedd golchi dwylo wedi'u leoli yn agos at ardaloedd paentio a thywod. Mae ymchwil yn dangos bod rhannu yr ystafell ddosbarth fel hyn yn gallu cael effaith cadarnhaol ar datblygiad cymdeithasol (IrisCenter). Mae'r ystafell wedi'i oleuo gan olau naturiol, mae hyn yn creu awyrgylch mwy hapus yn y dosbarth, fe all awyrgylch dysgu heb olau naturiol cynyddu iselder (Edu-Quip). Mae'r waliau wedi eu haddurnio gyda lluniau ac hysbysfyrddau lliwgar ac addysgiadol sydd yn gwneud yr ystafell yn personol i'r dysgwyr ifanc. Fe all y lliwiau a defnyddir mewn amgylchedd dysgu gael effaith ar hwyliau a rhychwant sylw plant. Mae ymchwil yn dangos bod y defnydd o lliwiau gwahanol mewn dosbarth yn cael effaith gadarnhaol ar dysgu (Edu-Quip).

Yr Ysgol a'r Gymuned

Fe all cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol â'r gymuned gael effaith gadarnhaol ar llwyddiannau a lles disgyblion yn ogystal â chynorthwyo teuluoedd ac adfywio'r gymuned (Sanders, 2003, tud 173). Yn ôl Estyn mae ysgol sydd yn cydweithio efo'r gymuned yn "un sydd â lles pennaf dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned wrth wraidd iddi." (Estyn). Mae ysgolion sydd yn cydweithio a rhannu adnoddau gyda teuluoedd â'r gymuned eang yn gallu cael effaith enfawr ar addysg disgyblion, enwedig disgyblion sydd yn dod o deuluoedd difreintiedig (Estyn). Pan mae ysgol yn ymestyn allan i'r gymuned maent yn "dangos eu hymrwymiad i chwarae teg, cynhwysiant a thegwch" (Estyn).

Mae fy ysgol lleoliad yn enghraifft o ysgol sydd wedi agor y drysau i'r gymuned. Mae'r ysgol yn hwb i'r gymuned. Maent yn cynnal clwb brecwast yn y bore er mwyn sicrhau bod bob plentyn yn cael brecwast maethlon yn ogystal i hyn maent yn cynnal clwb ar ôl ysgol. Fe all aelodau o'r gymuned llogi neuadd yr ysgol ar ôl ysgol neu ar y penwythnos e.e. mae dosbarth ddawns yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn (Ysgol Lleoliad, 2020).

Llais y disgybl

Mae adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dweud bod "llais y disgybl" yn helpu ysgolion i wella (BBC Cymru Fyw, 2016)

Er mwyn i'r ysgol wneud cynnydd rhaid iddi fynd i'r afael a gwerthfaewrogi llais y dysgwr. Dylai ysgolion ddefnyddio llais y dysgwr fel Sylfaen wrth gynllunio cwricwlwm, hunan arfarnu ac wrth rhaeadru a llunio Cynllun Gwella'r Ysgol.

Dyma rhai enghreifftiau o sut mae fy ysgol lleoliad yn blaenoriaethu llais y disgybl:

- Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd hawliau plant e.e. cael gwasanaethau am hawliau yn gyson.
- Mae gennynt gyngor ysgol er mwyn bod y plant yn gallu rhoi eu barn.
- Maent yn hyrwyddo hunan-barch e.e. defnyddio siartiau clôd.
- Defnyddio siartiau teimladau er mwyn bod y plant yn gallu mynegi eu teimladau yn hawdd.
- Mae'r disgyblion yn cael dweud am yr hyn maen nhw'n dysgu amdano.



(Enghraifft o arddangosfa gwaith disgyblion yn fy ysgol lleoliad)



Rôl Rhieni

Mae ymgysylltu â rhieni yn chwarae rôl blaenllaw am godi cyflawniad yn yr ysgol. Pan mae rhieni a athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo dysgu gwelir enillion sylweddol yng nghyflawniad yr ysgol (Harris a Goodall, 2007).

Roedd fy ysgol lleoliad yn gweithio'n agos efo'r rhieni er mwyn sicrhau llwyddiant y dysgwyr, maent yn pwysleisio bod athro a rhieni yn hafal ar gyfer sicrhau llwyddiant y dysgwyr (Ysgol lleoliad, 2020). Mae'r ysgol yn sicrhau bod y rhieni yn ymwybodol o ddatblygiad a chynnydd eu plant er enghraifft drwy gynnal nosweithiau rhieni sy'n helpu gwella dealltwriaeth rhieni o strategaethau darllen a rhifedd yn ogystal â materion cyfoes (Estyn, 2018). Maent hefyd yn cynnal wythnos "Dewch a rhiant i'r ysgol" er mwyn dangos i'r rhieni sut a beth mae eu plant yn gwneud a dysgu yn yr ysgol (Estyn, 2018).

Mae nifer o ddamcaniaethwyr ac arbenigwyr yn cytuno bod cydweithio effeithiol rhwng y cartref, ysgol a'r gymuned yn gallu arwain at gyflawniad academaidd (Durisic a Bunijevac, 2017, tud 139). Yn ôl Sheldon, 2009 mae ymchwil yn dangos bod gan fyfyrwyr llwyddiannus cefnogaeth academaidd cryf wrth eu rhieni (Durisic a Bunijevac, 2017, tud 139). Yn ôl Epstein (2001, 2009) mae creu perthynas rhwng yr ysgol a rhieni hefyd yn strategaeth effeithiol ar gyfer gwella hinsawdd a rhaglenni'r ysgol, datblygu sgiliau rhianta, cynorthwyo teuluoedd a hefyd cynrythwyo athrawon efo'u gwaith (Durisic a Bunijevac, 2017, tud 139). Mae ymyrraeth rhieni yn addysg eu plant yn y cyfnod sylfaen yn arwain at well sgiliau academaidd, iaith a sgiliau cymdeithasol (Durisic a Bunijevac, 2017, tud 144). Dengys ymchwil hefyd bod plant sydd â rhieni sydd â diddordeb weithredol yn eu addysg megis rhieni sydd yn mynychu nosweithiau rhieni ac sydd yn cyfarthrebu yn gyson efo'r ysgol yn buddio yn academaidd yn fwy na phlant sydd â rhieni sydd ddim yn gwneud rhain (Durisic a Bunijevac, 2017, tud 144).



- BBC (2016). Estyn: ‘*Gall llais y disgybl wella ysgol*’. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38225293> . (Darllenwyd: 1/01/2021)
- Cyngor Abertawe (2020). *Llansamlet Ward Profile*. Ar gael yn: https://www.swansea.gov.uk/media/5161/Llansamlet-Ward-Profile/pdf/Llansamlet_Ward_Profile_February_2020.pdf (Darllenwyd: 28/12/2020)
- Durisic, M a Bunijevac, M (2017). *Parental Involvement as a Important Factor for Successful Education*. Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1156936.pdf> (Darllenwyd: 29/12/2020)
- Edu-Quip. *WHY IS CLASSROOM DESIGN SO IMPORTANT – AND HOW CAN YOU MAKE CHANGES TO YOURS?*. Ar gael yn: <https://www.edu-quip.co.uk/blog/why-is-classroom-design-so-important> (Darllenwyd: 1/01/2021)
- Estyn (2018). *Adroddiad ar Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las*. Ar gael yn: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las-adroddiad-estyn.pdf> (Darllenwyd 28/12/2020)
- Estyn. *Ysgolion cymunedol:teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol*. Ar gael yn: [PowerPoint Presentation - Estyn - GOV.WALESwww.estyn.gov.wales › system › files](https://www.gov.wales/system/uploads/attachment_data/file/54444/PowerPoint%20Presentation%20-%20Estyn%20-%20GOV.WALES.pdf) (Darllenwyd: 30/12/2020)
- GwE Gogledd Cymru(2018). *Cwricilwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2018/02/Diweddariad-ar-Gwricwlwm-i-Gymru.pdf> (Darllenwyd: 1/01/2021)
- Guy-Evans, O(2020). *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*. Ar gael yn:<https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Darllenwyd: 28/12/2020)
- Harris a Goodall(2007). *Engaging Parents in Raising Achievement Do Parents Know They Matter*. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/305496047_Engaging_Parents_in_Raising_Achievement_Do_Parents_Know_They_Matter (Darllenwyd 28/12/20200)
- Llywodraeth Cymru (2020). *Canllawiau Cwricilwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf> (Darllenwyd 30/12/2020)
- Llywodraeth Cymru (2020). *Cwricilwm i Gymru. Y daith i 2022*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/67a9e3e4-4289-40f1-9734-cdbb64b37592/y-daith-i-2022.pdf> (Darllenwyd: 30/12/2020)
- Llywodraeth Cymru. *Datblygu gweledigaeth ar gyfer dylunio cwricwlwm*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-dylunio-cwricwlwm/#cynllunio-cwricwlwm-a-r-pedwar-diben> (Darllenwyd: 30/12/2020)
- Sanders, M.G. (2003). *Community Involvement In Schools. Education and Urban Society*, 35, pp.161–180. Ar gael yn:<https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/0013124502239390> (Darllenwyd: 28/12/2020)
- The IRIS Center. (2015). Early childhood environments: Designing effective classrooms. Ar gael yn: <https://iris.peabody.vanderbilt.edu/module/env/> (Darllenwyd: 1/01/2021)